
Saesneg yn y Byd – L201

Patrwm cyflwyno: Yn dechrau mis Hydref 2021

Disgrifiad o'r cymhwyster

Disgrifiad o'r modiwl

Heddiw, Saesneg yw'r iaith fwyaf blaenllaw yn y byd: mae mwy na chwarter o boblogaeth y byd yn siarad yr iaith. Mae Saesneg yn chwarae rôl allweddol ym meysydd diplomyddiaeth ryngwladol a masnach, a diwydiannau byd-eang y cyfryngau ac adloniant, a chaiff ei defnyddio mewn trafodaethau beunyddiol ledled y byd. Yn y modiwl hwn, byddwch yn olrhain hanes lledaeniad yr iaith Saesneg i bob cwr o'r byd ac yn edrych ar yr amrywiaeth sy'n nodweddiadol o'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau arferol, o'r cartref i'r byd addysg a gwaith. Gan ddefnyddio deunyddiau argraffedig ac ar-lein, byddwch yn ymchwilio i ddylanwad yr iaith ar y cyd ag ieithoedd eraill, gan edrych ar faterion byd-eang cyfoes megis mudo a phrotestiadau gwleidyddol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd gyntaf neu uwch mewn disgyblaeth berthnasol (e.e. ieithyddiaeth/ieithyddiaeth gymhwysol/ieithyddiaeth gymdeithasegol, Saesneg/Iaith Saesneg, neu astudiaethau'r cyfryngau/cyfathrebu) neu brofiad cymaradwy yn Y Brifysgol Agored mewn astudiaethau ieithyddiaeth gymhwysol neu astudiaethau iaith Saesneg
- gwybodaeth am o leiaf un o'r meysydd canlynol: hanes yr iaith Saesneg; iaith a'r cyd-destun cymdeithasol; ymagweddau cymdeithasol at iaith; amrywiad ieithyddiaeth gymdeithasegol; dadansoddi ieithyddol o destunau llafar ac ysgrifenedig (gan gynnwys dadansoddi mynegiant) caffael, addysgu a dysgu Saesneg fel iaith dramor neu iaith ychwanegol Saesneg fel iaith fyd-eang; Saesneg fel y'i siaredir ledled y byd; iaith a'r cyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol
- y gallu i ddatblygu ymagwedd ryngddisgyblaethol at astudio Saesneg, a'i meithrin ymhlith eraill, a gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau a phrofiadau
- sgiliau TG da
- profiad o addysgeg ar-lein gydamseredig ac anghydamseredig, ac ymrwymiad iddi
- profiad o waith cynllunio a hyfforddi a rennir (wyneb yn wyneb ac ar-lein) a/neu ymrwymiad iddo
- ymrwymiad i asesu ac adborth ffurfiannol

Gwybodaeth ychwanegol

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

| | |
|--|------|
| Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: | 60 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: | 4 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | eTMA |
| Lefel y gofynion TGCh: | 2 |
| Nifer y myfyrrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 20:1 |
| Band cyflog: | 7 |
| Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: | 5 |